



## **Cynllun Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy**

**Ardal Penmaenrhos**

# **Asesiad Effaith Cymunedol**

Mehfin 2012

# Cynnwys

	<b>Tudalen</b>
<b>1 Cyflwyniad</b>	<b>2</b>
1.1 Strategaeth Gymunedol Conwy – Un Conwy	2
1.2 Ysgolion bro	2
1.3 Ysgolion lleol (dalgyloedd)	2
1.4 Ysgolion pentref gwledig	3
<b>2 Proffil Ardal</b>	<b>3</b>
2.1 Proffil Ardal Penmaenrhos	3
2.2 Cyfleusterau cymunedol	4
2.3 Busnesau	4
2.4 Cyflogaeth ac incwm	5
2.5 Rhaglen Bywyd y Bae+	5
<b>3 Proffiliau Ysgol</b>	<b>6</b>
3.1 Mwy o wybodaeth am yr ysgolion	9
<b>4 Dull Asesu Effaith Cymunedol</b>	<b>10</b>
4.1 Asesiadau Effaith Cymunedol Dewisiadau Awdurdod Lleol ar gyfer Newid Strwythurol	11
<b>5 Casgliadau ac argymhellion</b>	<b>17</b>
<b>Atodiad</b>	<b>19</b>

## 1. Cyflwyniad

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi bod yn cynnal adolygiad manwl o'i ysgolion cynradd yn ystod y tair blynedd ddiwethaf. Canlyniad hyn oedd cyhoeddi'r *'Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy'* a'r *'Cynllun Gweithredu'* cysylltiedig ym mis Hydref 2012, ar ôl ei fabwysiadu gan y Cabinet.

Cytunodd y Cabinet hefyd i:

- i) Ymgynghori ag ardaloedd yn fanwl (asesiad effaith llawn) ar y dewisiadau o fewn y Cynllun Gweithredu, a
- ii) Chynnal cyfarfodydd rhanddeiliaid gyda'r ardaloedd hynny a nodwyd ar gyfer *'adolygiad mewn dwy flynedd'*.

Bydd gwybodaeth allweddol, gan gynnwys asesiadau effaith ar iaith, cydraddoldeb, cludiant, cymuned; ac adeiladau addas i'r pwrpas yn cael eu gwneud er mwyn cyfeirio gwerthusiad dewis.

Bydd cyfarfodydd ymgynghori ffurfiol yn cael eu cynnal gyda phob ysgol o fewn ardal adolygiad dechreuol er mwyn cyflwyno'n fanylach y dewisiadau a ystyriwyd ar gyfer pob ardal a chanlyniad y gwerthusiad dewis.

**Bydd y ddogfen hon yn ystyried effaith y dewisiadau arfaethedig yn ardal Penmaenrhos ar y gymuned leol.**

**1.1 Un Conwy** – Gweledigaeth Bwrdd Gwasanaeth Lleol Conwy ar gyfer dyfodol Conwy.

*'Mae pobl yng Nghonwy yn cael addysg ac mae ganddynt sgiliau'* yn un o wyth deilliant Un Conwy.

### **Beth rydym eisiau ei gyflawni**

- Mae plant a phobl ifanc yn cael dechrau teg mewn bywyd drwy ofal plant, addysg rhan amser a sgiliau magu plant
- Mae pob unigolyn ifanc mewn addysg, cyflogaeth a/neu hyfforddiant, ac yn cael mynediad cyfartal iddynt
- Mae gan bobl fynediad at ystod eang o gyfleoedd dysgu
- Mae gan bobl y sgiliau i ddod o hyd i a chadw gwaith ac yn cael cyfle i wella eu sgiliau, cymwysterau, profiad a'u cyflogadwyedd
- Dull cydgysylltiedig o wella rhifedd a llythrennedd

### **1.2 Ysgolion Bro**

Bydd yr Awdurdod Lleol yn cefnogi ysgolion i ddatblygu cysylltiadau â'r fro sy'n darparu cyfleoedd i gyfoethogi profiadau i bawb. Mae angen datblygu cyfleoedd i wella ac ehangu'r cwricwlwm o fewn cylch yr ysgol a thu hwnt gan fod o fudd i ddisgyblion a thrigolion lleol. Wrth ystyried y dewisiadau ar gyfer strwythurau ysgol yn y dyfodol bydd yr Awdurdod yn cydbwysu anghenion addysgol gyda datblygiad cymunedol, buddsoddiad ac anghenion cefnogi.

### **1.3 Ysgolion Lleol (dalgylchoedd)**

Bydd rhaglen Moderneiddio Ysgolion Cynradd yn cefnogi polisi'r Awdurdod o nodi ysgolion lleol ar gyfer ardaloedd. Mae gan bob ysgol 'ddalgylch' diffiniedig. Mae dalgylchoedd yn seiliedig ar ffiniau ward fel y darparwyd gan y Comisiwn Ffiniau. Mae dalgylchoedd yn cael eu mapio ac mae angen eu hadolygu'n achlysurol.

Bydd dalgylch yn cynnwys sawl milltir sgwâr mewn ardal wledig a gall gynnwys un neu fwy o bentrefi a'u hardaloedd o'u hamgylch. Mewn ardaloedd trefol gyda dwy ysgol neu fwy, bydd y dalgylch yn gasgliad o strydoedd.

## 1.4 Ysgolion gwledig

Mae'r Awdurdod yn cydnabod y rhan allweddol mae ysgolion yn eu chwarae mewn ardaloedd gwledig wrth gynnal diwylliant lleol, iaith a ffordd o fyw. Wrth ystyried dewisiadau strwythurau ysgol yn y dyfodol mewn ardaloedd gwledig, bydd yr Awdurdod yn cydbwysu anghenion addysgol gyda datblygiad lleol, buddsoddiad ac anghenion cefnogi.

## 2.0 Proffil Ardal

### 2.1 Proffil Ardal Penmaenrhos

Mae anheddiad Penmaenrhos wedi'i gynnwys yn bennaf yn wardiau Colwyn a Llysfaen ar hyd Lôn Peulwys. Mae dwy ysgol gynradd yn yr ardal, sef Ysgol Babanod Penmaenrhos ac Ysgol Tan y Marian. Mae Ysgol Babanod Penmaenrhos yn cynnig addysg i ddisgyblion o dair i saith oed. Mae Ysgol Tan y Marian yn cynnig addysg i ddisgyblion o saith i unarddeg oed.

Mae dalgylch y ddwy ysgol yn fras yn cynnwys ardal ganolog a dwyreiniol Ward Colwyn ac anheddiad bychan i ardal orllewinol Ward Llysfaen (stad Peulwys). Mae Ward Colwyn yn cynnwys cyfran ychydig yn uwch o bobl ifanc hyd at 15 oed na'r cyfartaledd cymedrig ar gyfer Sir Gonwy, a chyfran ychydig yn is o bobl o oedran pensiwn.

Mae Ward Llysfaen yn cynnwys cyfran uwch o bobl ifanc hyd at 15 mlwydd oed na'r cyfartaledd cymedrig ar gyfer Sir Gonwy, a chyfran ychydig yn uwch na'r cyfartaledd o bobl 16 - 29 oed a 30 - 44 oed. Mae gan Llysfaen gyfran sylweddol is o bobl o oedran pensiwn a chyfran ychydig yn is o bobl 45 oed - oedran pensiwn.

Poblogaeth gyfunol y ddwy ward yw 7050.<sup>1</sup> Nifer y tai o fewn dalgylch y ddwy ysgol yw 1337 gyda 3488 o dai o fewn milltir i Ysgol Tan y Marian a 3789 o dai o fewn milltir i Ysgol Babanod Penmaenrhos.

Gan fod y dalgylchoedd ond yn cynnwys un ward a rhan o un arall, nid yw'r ffigyrau poblogaeth yn hawdd i'w sefydlu. O gyfrif poblogaeth yr holl ddalgylch sydd o amgylch y ward (map 2) poblogaeth y dalgylch yw 5587.<sup>2</sup>


Ers cychwyn cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol yn 2007, gorffennwyd 45 o anheddau newydd yn ward Colwyn a saith yn Llysfaen. Mae dau safle mawr arall hefyd gyda chaniatâd cynllunio ar gyfer 48 o anheddau yn ward Colwyn. Yn seiliedig ar raddfeydd cwblhau blaenorol, byddem yn rhagweld tua 70 anedd yn cael eu hadeiladu yng Ngholwyn a 13 yn Llysfaen ar safleoedd y gobeithir eu cael ar gyfer adeiladu yn ystod gweddill cyfnod y Cynllun. Yn wardiau Colwyn a Llysfaen, cynigir 355 o anheddau ar safleoedd newydd dros gyfnod y CDLI. Mae'r mwyafrif o'r rhain wedi'u lleoli ar safle fferm Tŷ Mawr (ward Llysfaen) gyda 255 anedd gan gynnwys cytundeb Adran 106. Cynigir 70 o anheddau ychwanegol ym mhentref Llysfaen, ar ddau safle a 30 anedd yn Ysgol y Graig yng Ngholwyn yn llunio gweddill y dyraniadau newydd yn yr ardal hon.

<sup>1</sup> 2009 Amcangyfrif poblogaeth canol blwyddyn, Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol; amcangyfrif poblogaeth ardal fechan arbrofol ONS

<sup>2</sup> Fel yr uchod

Mae 24 disgybl cynradd arall posib yn gysylltiedig â'r anheddau ychwanegol hyn yn nalgylch Penmaenrhos ac mae 32 disgybl cynradd arall posib yn gysylltiedig â'r anheddau newydd yn nalgylch Tan y Marian.<sup>3</sup>

Map 1: Wardiau Colwyn a Llysfaen gydag Ysgolion Penmaenrhos a Tan y Marian



© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2012 Arolwg Ordnans 100023380  
Mae telerau ac amodau'n gysylltiedig â defnyddio'r data hwn

## 2.2 Cyfleusterau Cymunedol

Mae'r cyfleusterau canlynol o fewn y dalgylch ar gael ar gyfer defnydd cymunedol:

- Canolfan Gymunedol Peulwys a'r Ardal, Ffordd Sŵn y Don, Stad Peulwys, Hen Golwyn, BAE COLWYN LL29 9LG

Mae'r cyfleusterau ychwanegol canlynol o fewn y wardiau ac ar gael ar gyfer defnydd cymunedol:

- *Canolfan Gymunedol Tan y Lan*, Hen Golwyn, LL29 9BB
- *Canolfan Chwaraeon Llysfaen* Ffordd Dolwen, Llysfaen, Bae Colwyn

## 2.3 Busnesau

Mae nifer fechan o fusnesau yn ardal Penmaenrhos gyda dwy chwarel, cwmni adeiladu, nifer fechan o unedau busnes ar ffin dalgylch yr ysgol a dwy siop fechan, un yn swyddfa bost fechan. Mae gan undeb llafur gwasanaethau cyhoeddus Unison ganolfan weinyddol yma, yn ogystal â darpariaeth pobl hŷn.

## 2.4 Cyflogaeth ac Incwm

Mae cyfraddau hawlio diweithdra JSA ar gyfer Chwefror 2012 yn dangos fod gan Golwyn (6.0) a Llysfaen (5.8) gyfradd diweithdra ychydig yn uwch na'r cyfartaledd sirol (4.5).<sup>4</sup>

Yn ôl cyfrifiad 2001, yn y ddwy ward y gyflogaeth fwyaf yw'r sectorau gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg ac iechyd (Colwyn 33.2% a Llysfaen 27.2%), gyda dosbarthu, gwestai ac arlwyyo (26.8% and 26.5%) yn dilyn.<sup>5</sup>

Roedd cyflogaeth yn y sector Dosbarthu, Gwestai ac Arlwyyo yn uwch na chyfartaleddau Cymru (21.7%). Roedd cyflogaeth yn y sector Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Addysg ac Iechyd yng Ngholwyn yn uwch na chyfartaledd Cymru (27.9%) gyda Llysfaen ychydig yn is.

Roedd cyflogaeth yn y sector Dosbarthu, Gwestai ac Arlwyyo ychydig yn is na chyfartaledd Conwy gyfan (28.1%). Roedd cyflogaeth yn y sector Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Addysg ac Iechyd yng Ngholwyn yn uwch na chyfartaledd Conwy (29.3%) gyda Llysfaen yn sylweddol is.

Roedd gweithio o adref yng Ngholwyn (8.9%) yn sylweddol is na chyfartaledd Conwy (12.8%) gyda nifer y rhai yn gweithio yn y diwydiant adeiladu yn Llysfaen (11.6%) yn uwch na chyfartaledd Conwy (8.0%)

Yr incwm cartref cymedrig ar gyfer y sir yw £24,950. Mae'r incwm cartref cyfartaledd yng Ngholwyn ychydig yn uwch ar £25,150 ac yn Llysfaen yn is ar £24,200.<sup>6</sup>

## 2.5 Rhaglen Bywyd y Bae+

Yn dilyn gweithdai rhanddeiliaid ac ymgynghoriad cyhoeddus yn 2005/6, bu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gyhoeddi Cynllun Datblygu Rhaglen Bywyd y Bae. Disgrifiwyd gweledigaeth ar gyfer yr ardal:

*"Bae Colwyn, tref ffyniannus, ddeniadol a fywiog sy'n groesawgar, yn ddiogel ac yn gyfeillgar; lle ac iddo gymeriad unigryw y mae pobl yn falch o fyw ynddo".*

Dynododd Llywodraeth Cymru arfordir Gogledd Cymru yn Ardal Adfywio Strategol (SRA) ym mis Hydref 2008. Yn 2009 cydnabuwyd hyn trwy ddatblygu'r rhaglen i Fywyd y Bae+. Mae Rhaglen Bywyd y Bae+ yn fwy na dim ond cynllun adfywio ffisegol - ei nod yw gwella a thynnu ynghyd yr holl bethau sy'n creu cymuned.

Yng Nghonwy, mae'r ardal ddynodedig yn ymestyn o Fae Cinmel yn y dwyrain i Fochdre yn y gorllewin. Mae'n cynnwys yn bennaf gymunedau arfordirol sy'n cael eu cysylltu gan gefnffordd yr A55, ffordd y glannau'r A547 a phrif linnell reilffordd Gogledd Cymru.

Mae'r Rhaglen Bywyd y Bae+ yn gwasanaethu'r un ardal ddaearyddol ag Ardal Adfywiad y Cynulliad. Mae'n cynnwys gwaith Bywyd y Bae sy'n canolbwyntio ar Fae Colwyn A'R gwaith sy'n digwydd yn nwyrain Conwy.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy sy'n arwain ar y Rhaglen Bywyd y Bae+, gan weithio gyda sefydliadau partner megis Coleg Llandrillo, CVSC, Heddlu Gogledd Cymru, Sw Cenedlaethol Cymru a chydä dros 30 grŵp cymunedol a 200 o fusnesau.

<sup>4</sup> NOMIS Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol Chwefror 2012

<sup>6</sup> Data Paycheck CACI

Lluniwyd prif gynllun ar gyfer y dref oedd yn nodi nifer o gyfleoedd datblygu yn ac o amgylch canol y dref. Mae'r rhain yn cynnwys gwella'r promenâd ac wyneb Bae Colwyn, gwella'r cyfleusterau ym Mharc Eirias, gwaith i wella canol y dref, gwella cyfleusterau cymunedol, gwella cludiant a hygyrchedd, Moderneiddio Ysgolion Cynradd, adfywio ac adnewyddu ardaloedd preswyl.

Hyd yma, mae cynllun gwella eiddo wedi ei ddyrannu i fusnesau wella golwg eu heiddo yn yr ardal. Mae prosiect cyfalaf mawr i wella glannau Bae Colwyn wedi dechrau, sy'n golygu gwella amddiffynfeydd y môr a gwell promenâd i gynnwys adnodd chwaraeon dŵr ar agor i bawb. Yn ddiweddar mae Parc Eirias wedi agor Canolfan Digwyddiadau Cymunedol £6.5m newydd sbon, a fydd yn darparu lleoliad ar gyfer digwyddiadau o'r safon uchaf ar gyfer y gymuned yn ogystal â darparu cartref i dîm undeb rygbi rhanbarthol Gogledd Cymru, RGC 1404. Mae Parc Eirias yn lle gwyrdd mawr yn y dref sydd eisoes yn cynnwys ysgol uwchradd leol, parc sglefrio, cyfleusterau chwaraeon amrywiol gan gynnwys canolfan chwaraeon draddodiadol a lle gwyrdd agored mawr.

### **3.0 Proffiliau Ysgol**

#### **Ysgol Babanod Penmaenrhos**

Mae arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer Ysgol Babanod Penmaenrhos yn cynnwys y sylwadau canlynol:<sup>7</sup>

"Mae Ysgol Babanod Penmaenrhos ar gyrion pentref Hen Golwyn yn sir Gonwy, yn gwasanaethu ardal Peulwys o'r pentref yn bennaf. Mae'r ysgol yn darparu addysg i ddisgyblion rhwng tair a saith mlwydd oed. Saesneg yw prif iaith yr ysgol ac mae bob disgybl yn dod o gartrefi ble siaradir Saesneg. Nid oes unrhyw ddisgybl yn dod o gartrefi ble siaredir Cymraeg fel iaith gyntaf. Nid oes unrhyw ddisgybl yn cael cefnogaeth ar gyfer Saesneg fel iaith ychwanegol.

Hefyd mae grŵp chwarae Dechrau'n Deg ar safle bum prynhawn yr wythnos.

Mae'r ysgol mewn ardal a ddisgrifir fel ardal o amddifadedd cymdeithasol ac economaidd. Mae gan saith deg chwech y cant o ddisgyblion hawl i brydau ysgol am ddim, sy'n sylweddol uwch na chyfartaledd sirol a chenedlaethol. Mae deugain y cant o'r disgyblion ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol, nad yw'n cynnwys y disgyblion o ysgolion eraill sy'n mynychu'r uned adnoddau.

Mae bron i bob disgybl yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu sgiliau cymdeithasol a sgiliau bywyd. Maent yn falch o'u hysgol ac yn gweithio yn dda gydag eraill o fewn yr ysgol fel cymuned.

Mae gan yr ysgol system effeithiol i asesu a thracio cynnydd a lles disgyblion ar draws yr ysgol. Mae'r ysgol yn hysbysu bob rhiant a gofawr ynghylch cyrhaeddiad, lles a datblygiad eu plentyn. Mae'r cofnodion asesu a phroffil disgybl unigol cynhwysfawr a gynhyrchir yn sicrhau fod yr adroddiadau blynyddol i rieni o ansawdd dda.

Mae'r llywodraethwyr yn cefnogi'r ysgol yn gydwybodol, yn gwybod am berfformiad y disgyblion ac yn herio'r ysgol yn unol â hynny. Maent hefyd yn gwybod am nifer o'r materion a'r cynlluniau mae'r ysgol yn eu datblygu. O dan arweinyddiaeth cadeirydd profiadol, mae'r llywodraethwyr hefyd yn rhannu gweledigaeth y pennaeth ar gyfer yr ysgol.

Mae'r ysgol yn cyfarfod nifer o flaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn effeithiol. Cyflwynodd y cyfnod sylfaen, agweddau ar asesu ar gyfer dysgu, clwb brechwast, y bws cerdded a'r prosiectau eco-ysgolion. Mae'r cynlluniau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad a lles disgyblion.

---

<sup>7</sup> Adroddiad Arolwg ESTYN ar Ysgol Babanod Penmaenrhos Mehefin 2011

Mae aelodau o staff yn gweithio'n agos iawn gyda'r grŵp chwarae lleol. Mae'r cysylltiadau cryf hyn yn helpu plant i setlo yn gyflym yn yr ysgol pan fyddant yn ymuno â'r grŵp meithrin. Mae trefniadau trosiant da yn bodoli gyda'r ysgol iau ble mae'r mwyafrif o'r disgyblion yn trosglwyddo pan fyddant yn saith oed. Mae rhaglen o ymweliadau a gweithgareddau yn paratoi disgyblion yn dda ar gyfer cam nesaf eu haddysg.

Mae gan yr ysgol bartneriaethau effeithiol gyda rhieni, nifer ohonynt yn helpu gyda gweithgareddau'r ysgol megis y bws cerdded ac ar ymweliadau ysgol. Mae'r ysgol yn rhoi gwybodaeth o safon dda i rieni, sy'n sicrhau eu bod yn gwybod beth sy'n digwydd yn yr ysgol."

## **Ysgol Tan y Marian**

Mae arolwg ESTYN diweddaraf ar gyfer Ysgol Tan y Marian yn cynnwys y sylwadau canlynol:<sup>8</sup>

"Mae Ysgol Tan y Marian yn ysgol gymuned i ddisgyblion saith i unarddeg oed. Mae ar gyrion Hen Golwyn, ym Mwrdeistref Sirol Conwy. Mae bron i bob disgybl sy'n mynychu'r ysgol o'r ardal leol, ble mae lefelau sylweddol o amddifadedd cymdeithasol ac economaidd. Mae gan tua 55% o ddisgyblion hawl i brydau ysgol am ddim, sy'n sylweddol uwch na chyfartaledd yr awdurdod lleol a chyfartaledd cenedlaethol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau'r ysgol ac wedi eu hysgogi yn dda. Mae'r holl ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o'r peryglon posib y gallant ddod ar eu traws y tu allan i'r ysgol. Dywed y disgyblion nad oes llawer o gamymddwyn neu fwlio a'u bod yn hyderus y bydd yr ysgol yn ymdrin yn effeithiol gydag unrhyw achosion posib.

Trwy'r cyngor ysgol, 'ffrindiau buarth' a nifer o weithgareddau eraill, mae disgyblion hyn yn cael cyfleoedd ystyrlon i wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar fywyd yr ysgol ac ar y gymuned leol. Er enghraifft, yn ddiweddar bu i'r cyngor ysgol weithio gyda'r swyddog cymunedol lleol i benderfynu ble i roi seddi ychwanegol yn yr ardal leol.

Mae strategau effeithiol wedi eu gweithredu i godi ymwybyddiaeth disgyblion ynghylch pwysigrwydd cynaladwyedd ac amddiffyn yr amgylchedd. Mae darpariaeth ar gyfer hyrwyddo dealltwriaeth a phrofiadau disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang yn cael ei ddatblygu.

Mae'r adeilad o ansawdd da ac mae'r ysgol yn defnyddio bob rhan ohono yn bwrpasol ac er budd y disgyblion. Mae'r cyfleusterau awyr agored helaeth yn cael eu defnyddio yn effeithiol iawn gan bob dosbarth i hyrwyddo dysgu disgyblion a'u datblygiad personol a chymdeithasol.

Mae partneriaethau'r ysgol gyda rhieni, y gymuned ac ysgolion eraill yn ymestyn profiadau dysgu y disgyblion yn effeithiol. Mae rhieni yn gefnogol iawn ac yn gwerthfawrogi'r wybodaeth reolaidd a gânt am weithgareddau'r ysgol a chynnydd eu plant. Mae nifer sylweddol yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd dysgu teuluol y mae'r ysgol yn eu darparu.

Mae cysylltiadau buddiol i bawb rhwng partneriaeth yr ysgol a'r gymuned leol. Mae ymweliadau gan, ac ymweliadau â'r gymuned yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion. Mae'r ysgol yn elwa'n sylweddol o'i defnydd rheolaidd o'r neuadd chwaraeon gymunedol ar gyfer gwersi addysg gorfforol dan do a hefyd y defnydd achlysurol o'r bws mini cymunedol.


Mae'r cysylltiadau cryf a sefydlwyd gyda'r ysgol fabanod yn esmwytho symudiad o un cyfnod allweddol i'r nesaf ac yn sicrhau parhad a dilyniant mewn dysgu. Mae trefniadau priodol i gymedroli gwaith disgyblion ar ddiwedd y cyfnod allweddol."

---

<sup>8</sup> Adroddiad Arolwg ESTYN ar Ysgol Tan y Marian Mehefin 2011



Map 2: Dalgylch Ysgolion Penmaenrhos a Tan y Marian



© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2012 Arolwg Ordnans 100023380  
Mae telerau ac amodau'n gysylltiedig â defnyddio'r data hwn

### 3.1 Mwy o Wybodaeth am yr Ysgolion

		Ysgol Babanod Penmaenrhos	Ysgol Tan y Marian
<b>Plant yn byw yn y dalgyrch yn mynychu'r ysgol</b>			
<i>(o fewn dalgylchoedd cyfrwng Saesneg)</i>		<b>59 30% *</b>	<b>49 31% *</b>
<b>Gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgol i'r gymuned, gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol</b>			
Clwb Brechwast	Tymor ysgol	<b>Dyddiol</b>	<b>Dyddiol</b>
Dysgu Teuluol	Tymor ysgol	-	Unwaith yr wythnos
Diwrnod Agored	Tymor ysgol	-	<b>1 y tymor</b>
Gwasanaeth Carolau	Tymor ysgol	-	<b>blynyddol</b>
Clwb Coginio	Tymor ysgol	<b>Wythnosol</b>	-
Clwb Drama	Tymor ysgol	<b>Wythnosol</b>	-
Clwb Chwaraeon	Tymor ysgol	<b>Wythnosol</b>	-
Ffair ysgol	Tymor ysgol	<b>Unwaith y tymor</b>	-
Clwb Garddio	Tymor ysgol	<b>Wythnosol</b>	-
<b>Cyfleusterau cymunedol a ddefnyddir yn rheolaidd gan yr ysgol</b>			
Canolfan Gymunedol Peulwys		-	<b>Dyddiol</b>
Bws mini cymunedol		-	<b>Wythnosol</b>
Gerddi Wynne		<b>3 gwaith y tymor</b>	
<b>Cyfleusterau cymunedol a ddarperir gan a gweithgaredd a gynhelir ar dir yr ysgol</b>			
Dysgu Teuluol	Tymor ysgol	-	<b>Wythnosol</b>
Ffordd o Fyw	Tymor ysgol	-	<b>Wythnosol</b>
4 x Clwb ar ôl Ysgol	Tymor Ysgol	-	Bob 1 yn wythnosol
Grŵp chwarae	Tymor ysgol	<b>Dyddiol</b>	-
Dechrau'r Deg x 2	Tymor ysgol	<b>1xDyddiol/1xwythnosol</b>	-
Cymdeithas preswylwyr lleol	Tymor ysgol	<b>Dwywaith y flwyddyn</b>	-
Gwasanaeth GCA	Tymor ysgol	<b>3 gwaith y flwyddyn</b>	-
<b>Effaith ar fusnesau a chyflogaeth leol</b>			
Busnesau manwerthu cyfleuster yn y dalgyrch		2	2
Busnesau gofal plant yn y dalgyrch		1	1
Busnesau sy'n cyflenwi'r ysgol yn y dalgyrch		0	0

Mae'r ganran o ddisgyblion sy'n mynychu'r ysgolion sy'n byw yn y dalgyrch yn gadarnhaol iawn gyda 94% o ddisgyblion yn mynychu Ysgol Babanod Penmaenrhos a 87% o ddisgyblion yn mynychu Ysgol Tan y Marian. Fodd bynnag, os ydych yn ystyried capasiti'r ysgolion mae'r ffigyrau yn rhoi persbectif gwahanol.

Mae lle i 81 disgybl yn Ysgol Babanod Penmaenrhos. Ar hyn o bryd mae 59 lle wedi eu llenwi gan ddisgyblion lleol; mae lle i 120 disgybl yn Ysgol Tan y Marian ac ar hyn o bryd mae 49 lle wedi eu llenwi gan ddisgyblion lleol. Mae hyn yn rhoi canran o 72.8% o blant lleol yn Ysgol Babanod Penmaenrhos a 40.8% yn Ysgol Tan y Marian. Gellir gweld hyn fel diffyg cefnogaeth i Tan y Marian o fewn y gymuned.

## 4.0 Asesiad Effaith Cymunedol

Gofynnwyd i'r Gwasanaeth Datblygiad Cymunedol ystyried effaith y dewisiadau canlynol o Gynllun Gweithredu 'Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy' ar gymuned Penmaenrhos:

*Dewis 1* Un ysgol ar un safle (Tan y Marian)

*Dewis 2 (dewis y gymuned)* – Cadw'r ysgolion presennol

*Dewis 3* Un ysgol ar y ddau safle sy'n bodoli

Y diffiniad o 'un ysgol' a roddwyd yn Adroddiad Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy:

*Bydd hyn yn golygu cyfuno ysgol iau a'i hysgol fabanod sy'n bwydo i un ysgol gynradd, gydag un pennaeth ac un corff llywodraethol.*

Bu i bob ysgol yn yr ardal gyflwyno gwybodaeth am eu swyddogaeth yn y gymuned (*gweler 3.1 Mwy o wybodaeth am yr ysgolion*). Gan ddefnyddio'r manylion hyn a gwybodaeth arall, bu i'r Gwasanaeth Datblygu Cymunedol archwilio'r effeithiau posib y gall y dewisiadau arfaethedig eu cyflwyno.

Mae gwybodaeth a ddadansoddwyd yn y broses hon yn cynrychioli ciplun o'r sefyllfa bresennol.

Canfuwyd pum mesur allweddol gyda'r pwysiad a gytunwyd gan Fwrdd Rhaglen Moderneiddio Ysgolion Cynradd a'u defnyddio i sicrhau fod materion penodol yn cael eu cynrychioli yn briodol:

- Plant sy'n byw yn y dalgylch sy'n mynychu eu hysgol leol (Pwysiad: 30)
- Gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgol ar gyfer y gymuned gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol (Pwysiad: 25)
- Cyfleusterau cymunedol a ddefnyddir yn rheolaidd gan yr ysgol (Pwysiad: 10)
- Cyfleusterau cymunedol a ddarperir gan a gweithgaredd a gynhelir ar dir yr ysgol (Pwysiad: 25)
- Effaith ar fusnesau lleol a chyflogaeth (Pwysiad: 10)

Cynhaliwyd gweithdy gydag Aelodau Etholedig lleol i ystyried yr asesiad.

Yn erbyn bob Dewis (e.e. 'Dewis 3, Un ysgol ar y ddau safle sy'n bodoli):

- Aseswyd y pum mesur (e.e. 'effaith ar fusnesau lleol a chyflogaeth') i ganfod unrhyw effeithiau negyddol neu gadarnhaol ar y gymuned.
- Yna rhoddwyd sgôr yn amrywio o -3 i +3 yn seiliedig ar gydbwysedd y dystiolaeth oedd ar gael.
- Yna lluoswyd pob sgôr unigol gyda'r pwysoliad a gytunwyd ar gyfer y mesur.

Sgôr y Mesur	Asesiad y mesur	Cyfanswm sgôr y mesur
-3	Dirywiad mawr	-201 i -300
-2	Dirywiad cymedrol	-101 i -200
-1	Rhywfaint o ddirywiad	-1 i -100
0	Dim newid ar y cyfan	0
1	Rhywfaint o welliant	1 i 100
2	Gwelliant cymedrol	101 i 200
3	Gwelliant mawr	201 i 300

Mae Adran 4.1 yn cyflwyno canlyniad yr asesiad effaith ar gyfer bob dewis. Ar gyfer y fethodoleg lawn gweler yr Atodiad.

#### 4.1 Asesiad Effaith Cymunedol Dewisiadau Awdurdod Lleol ar gyfer Newid Strwythurol

<b>MESUR</b>	<i>Dewis 1</i> Un ysgol ar un safle	<i>Dewis 2</i> Cadw'r ysgolion presennol	<i>Dewis 3</i> Un ysgol ar y ddau safle sy'n bodoli	<b>Sylwadau / lleihau'r effaith negyddol yn y dyfodol</b>
<p><b>Plant sy'n byw yn y dalgylch sy'n mynychu'r ysgol</b></p> <p>Pwysiad 30</p>	<p>-2 (-60)</p>	<p>0 (0)</p>	<p>-1 (-30)</p>	<p>Ar hyn o bryd mae 351 disgybl yn yr ardal, 195 o'r disgyblion hyn yn gymwys i le yn Ysgol Babanod Penmaenrhos a 156 yn gymwys i le yn Ysgol Tan y Marian. O fewn y ffigyrau hyn mae 20 disgybl o fewn bob band oedran yn dewis ysgol wahanol am resymau iaith neu ffydd, ar ôl ystyried iaith a ffydd dim ond <b>34.7%</b> o ddisgyblion sy'n dewis eu hysgolion lleol (gyda chapasiti'r ysgolion yn caniatáu uchafswm o <b>57%</b>).</p> <p>O ystyried nifer y lleoedd sydd ar gael yn y ddwy ysgol y gyfradd o ddisgyblion lleol sy'n mynychu'r ysgolion yn y dalgylch yw 72.8% yn Ysgol Babanod Penmaenrhos ac 40.8% yn Ysgol Tan y Marian (nifer y disgyblion lleol sy'n mynychu / nifer y lleoedd yn yr ysgol).</p> <p>Deallir fod daearyddiaeth leol yn chwarae rhan allweddol wrth benderfynu pa ysgolion mae disgyblion yn y dalgylch yn eu mynychu. Mae gwybodaeth anecdotaidd yn awgrymu tuedd o ddisgyblion sy'n byw ar stad Tan Lan yn mynychu Ysgol T Gwynn Jones er eu bod o fewn dalgylch Penmaenrhos.</p> <p>Mae allt serth a ffordd brysur yn rhwystrau cydnabyddedig ar gyfer plant iau.</p> <p>Gallai symud i un ysgol ar safle Ysgol Tan y Marian weld y patrwm hwn yn cynyddu. Gallai'r siwrnai/llwybr i ac o Ysgol T Gwynn Jones fod yn ffactor cyfrannol mawr yn y penderfyniad hwn.</p> <p>O'r disgyblion sy'n byw yn dalgylch Ysgol Babanod Penmaenrhos ac nid yn mynychu'r ysgol hon am resymau heblaw iaith neu ffydd, mae mwy na hanner (62) yn dewis mynychu Ysgol T Gwynn Jones.</p> <p>Yn debyg, o'r disgyblion sy'n byw yn dalgylch Ysgol Tan y Marian nad ydynt yn mynychu'r ysgol hon am resymau heblaw iaith neu ffydd, mae mwy na hanner (49) yn dewis mynychu Ysgol Hen Golwyn.</p> <p>Yn y ddwy enghraifft, mae cynifer o ddisgyblion yn dewis mynychu ysgolion eraill ag sy'n mynychu'r ysgol leol, yn arbennig, Ysgol T Gwynn Jones ac Ysgol Hen Golwyn.</p>

<b>MESUR</b>	<i>Dewis 1</i> Un ysgol ar un safle	<i>Dewis 2</i> Cadw'r ysgolion presennol	<i>Dewis 3</i> Un ysgol ar y ddau safle sy'n bodoli	<b>Sylwadau / lleihau'r effaith negyddol yn y dyfodol</b>
				<p>Mae canlyniadau arolwg rhieni a gynhaliwyd yn ddiweddar yn dangos mai dewis a ddymunir gan y gymuned yw dewis 2. Gan fod dewis 2 yn gweld 'dim newid' rhaid ei sgorio felly (0). Byddai dewisiadau 1 a 3 yn gweld rhywfaint o ddirywiad trwy ddiffyg dymuniad.</p> <p>Mae nifer y disgyblion o fewn yr ardal sy'n dewis mynychu ysgolion eraill heblaw Ysgol T Gwynn Jones ac Ysgol Hen Golwyn yn weddol fychan.</p> <p>Ar gyfer disgyblion presennol Ysgol Babanod Penmaenrhos, mae'r diffyg dewis posib yn cael ei ystyried fel effaith negyddol bychan (-1) gan fod ffigyrau yn awgrymu fod dros 80% (13 o 16) o ddisgyblion sy'n gadael Penmaenrhos yn mynd ymlaen i fynychu Ysgol Tan y Marian. Tra ar hyn o bryd yn mynychu dwy ysgol benodol, byddai eu dewis o ysgol iau yn aros yr un fath o ran lleoliad.</p> <p>Pe bai bob lle yn Ysgol Babanod Penmaenrhos wedi ei lenwi a bod 100% o'r disgyblion yn dewis mynd ymlaen i Ysgol Tan y Marian ni fyddai dal digon o ddisgyblion i lenwi Ysgol Tan y Marian. Fodd bynnag mae nifer y disgyblion cynradd sy'n byw yn y dalgylch yn llawer uwch na'r lleoedd sydd ar gael yn Ysgol Tan y Marian ac Ysgol Babanod Penmaenrhos yn unigol ac fel ffigwr gyfunol.</p> <p>Mae rhai plant o'r dalgylch hwn yn dewis mynychu Ysgol Cynfran, sef 'un ysgol gynradd', er nid cymaint â'r nifer sy'n dewis mynychu ysgolion yn Hen Golwyn.</p> <p>Gan fod yr asesiad hwn ar yr effaith ar y gymuned leol ac nid yr ysgolion neu ddisgyblion yn benodol, ar rifau yn unig mae unrhyw newid i'r ysgolion presennol yn annhebygol o effeithio ar fwyafrif o gymuned y dalgylch.</p> <p>Fodd bynnag, ni ellir yn hawdd mesur y swyddogaeth gefnogol allweddol mae'r ysgolion yn ei darparu hyd yn oed i leiafrif o'r dalgylch (disgyblion a'u teuluoedd) ac fe'i ystyrir yma i fod yn sylweddol. Mae tystiolaeth o hyn yn cynnwys y lefel o amddifadedd a gydnabyddir yn genedlaethol a'r ffaith fod ward Llysfaen 1 wedi ei chynnig i'w chynnwys yn y rhaglen cymunedau'n gyntaf.</p>

<b>MESUR</b>	<i>Dewis 1</i> Un ysgol ar un safle	<i>Dewis 2</i> Cadw'r ysgolion presennol	<i>Dewis 3</i> Un ysgol ar y ddau safle sy'n bodoli	<b>Sylwadau / lleihau'r effaith negyddol yn y dyfodol</b>
				Gan fod yr asesiad hwn ar y gymuned leol ac nid yr ysgolion neu'r disgyblion yn benodol daeth yn ddadleuol os oedd yr asesiad, sy'n seiliedig ar gyfradd mynychu o 30% yn adlewyrchu'r gymuned gyfan.
<b>Gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgol i'r gymuned, gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol</b>  Pwysiad 25	0	0	0	<p>Mae bob ysgol yn darparu ystod o weithgareddau, dim un ohonynt angen cyfleusterau arbenigol. Rhagwelir y byddai ystod debyg neu ehangach o weithgareddau yn cael eu darparu mewn unrhyw ysgol yn y dyfodol gan weithio fel Ysgol Fro.</p> <p>Gallai disgyblion o bosib elwa o ystod ehangach o weithgareddau gan rannu arbenigedd staff ac adnoddau ar draws y ddwy ysgol bresennol.</p>
<b>Cyfleusterau cymunedol a ddefnyddir yn rheolaidd gan yr ysgol</b>  Pwysiad 10	0	0	0	<p>Mae Ysgol Tan y Marian wedi dangos eu bod yn defnyddio'r Ganolfan Gymunedol ar safle ar gyfer defnydd ysgol. Nid oes rheswm i ddisgwyl i hyn newid gyda darpariaeth newydd. Mae'r ganolfan ar gael i'r gymuned gyfan trwy'r amser ac nid dim ond i'r ysgol yn ystod y dydd.</p> <p>Mae cyfleusterau a ddefnyddir gan Ysgol Babanod Penmaenrhos yn tueddu i fod y tu allan i'r dalgylch.</p>
<b>Cyfleusterau cymunedol a ddarperir gan a gynhelir ar dir yr ysgol</b>  Pwysiad 25	-1 (-25)	0 (0)	0 (0)	<p>Mae nifer tebyg o grwpiau yn defnyddio'r cyfleusterau yn y ddwy ysgol gydag Ysgol Babanod Penmaenrhos yn cynnig darpariaeth ddyddiol ar gyfer y Grŵp Chwarae a Dechrau'n Deg. Ymddengys fod Ysgol Tan y Marian yn cynnig mwy o weithgareddau dyddiol megis pedwar clwb ar ôl ysgol.</p> <p>Yn nhermau cyfleusterau cymunedol, nid yw'r glir os byddai gwasanaeth a ddarperir gan Ysgol Babanod Penmaenrhos yn cael ei gynnwys o fewn darpariaeth sy'n bodoli. Mae Canolfan Gymunedol Peulwys a'r Ardal yn cael ei rhedeg gan bartneriaeth annibynnol a thra ei bod yn cael ei defnyddio gan yr ysgol yn ystod amser ysgol nid yw ar gyfer eu defnydd hwy yn unig. Tra ymddengys y byddai bob grŵp yn gallu cael eu cynnwys byddai hyn yn dibynnu ar amseroedd y defnydd gan y grwpiau, byddai hyn angen ystyriaeth a monitro.</p>

<b>MESUR</b>	<i>Dewis 1</i> Un ysgol ar un safle	<i>Dewis 2</i> Cadw'r ysgolion presennol	<i>Dewis 3</i> Un ysgol ar y ddau safle sy'n bodoli	<b>Sylwadau / lleihau'r effaith negyddol yn y dyfodol</b>
				Pe byddai angen cynnydd sylweddol neu fynediad neilltuedig yn ystod y dydd i'r ganolfan gymunedol byddai hyn yn golygu colli cyfleuster cymunedol yn ystod y dydd gan olygu ychydig o ddirywiad.
<b>Effaith ar fusnesau lleol a chyflogaeth</b> Pwysiad 10	0	0	0	Mae cyfanswm y sgôr yn cynnwys asesiadau ar effaith ar gyflogaeth, manwerthwyr cyfleustra lleol, busnesau gofal plant a busnesau lleol sy'n cyflenwi'r ysgolion (gweler dadansoddiad o'r asesiadau hyn isod).
<i>Cyflogaeth</i>	-1	0	0	Ar hyn o bryd byddai'n synhwyrol gweithio ar y dybiaeth y byddai ysgol gyfunol ar safle Ysgol Tan y Marian o bosib yn colli rhwng 0.5 i 1 swydd addysgu. Ni allwn gyfrifo'r effaith ar staff cefnogi ar hyn o bryd.
<i>Busnesau manwerthu cyfleustra lleol</i>	1	0	0	<p>Mae dau fanwerthwr cyfleustra wedi eu lleoli yn yr ardal gyfagos. Ystyrir fod lleoliad un ysgol ardal ar safle Tan y Marian yn ddewis sy'n cyflwyno effaith cadarnhaol tebygol, yn effeithio ar y siop sydd gyferbyn.</p> <p>Mae'r siop hon yn agos iawn a gall elwa o fasnach sy'n gysylltiedig â'r disgyblion, staff a rhieni sy'n teithio i ac o'r ysgol bob dydd yn ystod tymor yr ysgol.</p>
<i>Busnes gofal plant o fewn yr ardal</i>	0	0	0	Tra bod yr ymatebion yn dangos nad oedd unrhyw fusnes gofal plant yn yr ardal, ar ôl mwy o ymchwil a thrafodaeth gyda Dechrau'n Deg ymddengys fod un gwarchodwr plant, dwy ddarpariaeth gofal dydd tymhorol ac un ddarpariaeth gofal dydd llawn. Byddai'r dewisiadau a gynigir yma yn cael effaith fechan iawn os o gwbl.

<b>MESUR</b>	<i>Dewis 1</i> Un ysgol ar un safle	<i>Dewis 2</i> Cadw'r ysgolion presennol	<i>Dewis 3</i> Un ysgol ar y ddau safle sy'n bodoli	<b>Sylwadau / lleihau'r effaith negyddol yn y dyfodol</b>
				<p>Ble byddai dwy ysgol yn cael eu hadleoli ar un safle, gall patrymau teithio ddod yn haws i ddarparwyr gofal plant, gyda dim ond un safle i ymweld ag o, fodd bynnag o ystyried fod y ddau safle mor agos nid dyma'r achos ar yr achlysur hwn.</p> <p>Pe na fyddai'r ddarpariaeth grŵp chwarae sydd yn cael ei gynnig yn bresennol ym Mhenmaenrhos yn cael ei ymgorffori mewn unrhyw newid byddai effaith, fodd bynnag os byddai'r ddarpariaeth yn cael ei ymgorffori byddai'r effaith hwn yn isel iawn os o gwbl.</p>
<i>Busnesau yn cyflenwi'r ysgolion</i>	0	0	0	<p>Nid oes unrhyw fusnesau lleol (Ardal Penmaenrhos) yn cyflenwi Ysgol Babanod Penmaenrhos nac Ysgol Tan y Marian. Ni ymddengys fod unrhyw gontractau arwyddocaol i ddarparu unrhyw ysgol gyda nwyddau neu wasanaethau, ac ni ystyrir bod unrhyw fusnes lleol yn ddibynnol ar gwsmeriaeth yr ysgolion. Disgwylir lefelau tebyg o fasnach gydag un ysgol ardal.</p>



## Crynodeb o Asesiad Effaith Cymunedol

<b>Mesur</b>	<b><i>Dewis 1</i> Un ysgol ar un safle (Tan y Marian)</b>	<b><i>Dewis 2</i> Cadw'r ysgolion presennol</b>	<b><i>Dewis 3</i> Un ysgol ar y ddau safle sy'n bodoli</b>
<b>Plant sy'n byw yn y dalgylch sy'n mynychu'r ysgol</b>	<b>-60</b>	<b>0</b>	<b>-30</b>
<b>Gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgol i'r gymuned, gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>
<b>Cyfleusterau cymunedol a ddefnyddir yn rheolaidd gan yr ysgol</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>
<b>Cyfleusterau cymunedol a ddarperir gan a gweithgaredd a gynhelir ar dir yr ysgol</b>	<b>-25</b>	<b>0</b>	<b>0</b>
<b>Effaith ar fusnesau lleol a chyflogaeth</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>
<b>Cyfanswm sgôr effaith cymunedol</b>	<b>-85</b>	<b>0</b>	<b>-30</b>

Gwelir mai cadw'r ddarpariaeth bresennol, tra'n gweld dim newid, yw'r dewis a ddymunir. Ystyrir dewis 1 yn ychydig o ddirywiad oherwydd y posibilrwydd o golli staff a'r pellter estynedig rhwng cyfleusterau'r ysgol a Tan Lan ardal gyda phoblogaeth uchel. Ystyriwyd hefyd y byddai dewis 1 yn cael effaith ar gyfleusterau cymunedol. Ystyriwyd dewis 1 a 3 yn ychydig o ddirywiad oherwydd colli dymuniad disgyblion a rhieni o fewn y gymuned.

## 5. Casgliadau ac Argymhellion

Canlyniad yr asesiad effaith yn seiliedig ar y pum mesur yn adran 4 yw na fyddai cadw'r ysgolion sy'n bodoli yn cael effaith negyddol yn gyffredinol ar y gymuned ac yn adlewyrchu dewis y gymuned. Mae dewis 3 yn gweld canlyniad negyddol oherwydd diffyg dewis ac yn achos dewis 1, colli cyfleusterau ysgol a chynnydd yn y pellter o stad Tan Lan i ddalgylch yr ysgol.

Fel nodir yn y matrices sgorio, mae gan 'Dim Newid' sgôr o 0, rhoddwyd ystyriaeth yn ystod yr asesiad effaith hwn i a fyddai rhifau presenoldeb ysgolion yn cael effaith sylweddol ar gyllidebau gan alluogi mwy o gyfleoedd, fodd bynnag mae hyn wedi profi yn anodd i'w sefydlu. Deallir fod y Gwasanaethau Addysg yn paratoi cyflwyniad ar y cyllidebau hyn a dylid ystyried yr wybodaeth hon o ran effeithiau posib ar y gymuned hon.

Edrychwyd ar raddfa'r berthynas rhwng y gymuned a'r ysgolion i sefydlu maint y cyswllt rhwng y ddau. O fewn dalgylch cyfan Penmaenrhos dim ond 30.7% o ddisgyblion sy'n dewis mynychu eu hysgolion lleol, mae 11.4% yn dewis mynychu ysgol wahanol am resymau iaith neu ffydd gan olygu fod dros hanner, 57.8% o ddisgyblion yn mynychu ysgolion y tu allan i'w dalgylch.

Gyda chyfanswm y lleoedd yn y ddwy ysgol (201) yn caniatáu uchafswm o 57% o ddisgyblion lleol i gael lle, mae'r gwir ffigwr bron i hanner beth y gallai fod ac yn awgrymu nad yw'r ysgolion yn cael cefnogaeth dda gan y gymuned leol. Er hynny, dylid dilyn llwybrau i wella'r berthynas hon cyn ailstrwythuro yn llwyr (e.e. un ysgol gynradd), o safbwynt y gymuned gan mai 'dim newid' yw'r dewis a ddymunir.

Mae nifer y disgyblion sy'n mynychu'r ysgolion o'r dalgylch yn weddol uchel; mae 94% o ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Babanod Penmaenrhos yn byw yn y dalgylch a 87% o ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Tan y Marian yn byw yn y dalgylch.

Fodd bynnag, os ydych yn ystyried capasiti yr ysgolion, mae'r ffigyrau yn rhoi safbwynt gwahanol. Mae lle i 81 disgybl yn Ysgol Babanod Penmaenrhos, ar hyn o bryd mae 59 lle wedi eu llenwi gan ddisgyblion lleol; mae lle i 120 disgybl yn Ysgol Tan y Marian ac yn bresennol mae 49 lle wedi eu llenwi gan ddisgyblion lleol. Mae hyn yn rhoi canran o 72.8% o blant lleol yn cymryd lle yn Ysgol Babanod Penmaenrhos a 40.8% yn Ysgol Tan y Marian. Gellir ystyried hyn yn ddiffyg cefnogaeth i Ysgol Tan y Marian o fewn ei chymuned.

Gan fod yr asesiad hwn ar y gymuned leol ac nid yr ysgolion neu'r disgyblion yn benodol, ar sail y nifer sy'n mynychu yn unig gellir ystyried effaith cyffredinol unrhyw ddewis ar y gymuned yn isel iawn.

Fodd bynnag, ni ddylid tanbriso'r swyddogaeth allweddol y mae'r ysgolion hyn yn ei chwarae gyda'r disgyblion lleol nad ydynt yn mynychu. Cynigiwyd cynnwys ward Llysfaen 1 yn yr ardal Cymunedau'n Gyntaf newydd sydd wedi canolbwyntio yn flaenorol ar y 10% o ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is mwyaf difreintiedig Cymru.

Mae Llysfaen 1 ychydig y tu allan i'r amrediad hwn ac fel ardal sy'n profi amddifadedd sylweddol, deallir fod y gymuned yn arbennig o sensitif i'r gwasanaeth a gynigir gan yr ysgol. Bydd hyn yn bennaf fel ffynhonnell o sefydlogrwydd o'r straen a allai fod yn bresennol ym mywydau cartref y plant.

Mae'r angen hwn am gefnogaeth i deuluoedd bregus wedi ei ddangos gan weithgareddau'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf. Mae'r ward yn cael cefnogaeth trwy'r

rhaglen hon i gyflawni gwell iechyd a lles, addysg a chyflogaeth i deuluoedd yn byw mewn tlodi. Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn datblygu ffyrdd newydd o weithio i gefnogi teuluoedd bregus - proses barhaus sy'n canfod anghenion lleol trwy gasglu data, cynnal cyfweiliadau manwl gyda theuluoedd, mapio gwasanaethau cyfredol (proffilio gwasanaeth) ac ymgynghori gyda gweithwyr proffesiynol.

Ystyrir fod daearyddiaeth leol yn chwarae rhan allweddol wrth benderfynu pa ysgolion mae disgyblion yn y dalgylch yn eu mynychu. Mae gwybodaeth anecdotaidd yn awgrymu tuedd o ddisgyblion sy'n byw ar stad Tan Lan yn mynychu Ysgol T Gwynn Jones er eu bod o fewn dalgylch Penmaenrhos. Gallai symud i un ysgol ar safle Ysgol Tan y Marian weld y patrwm hwn yn cynyddu. Gallai'r llwybr gweddol haws i ac o Ysgol T Gwynn Jones fod yn ffactor cyfrannol mawr yn y penderfyniad hwn gan fod y siwrnai i Ysgol Babanod Penmaenrhos yn golygu allt serth a ffordd brysur.

Y tu hwnt i'r effaith hwn ar y disgyblion a theuluoedd, ystyrir fod dewis 1 yn golygu effaith rhywfaint yn negyddol oherwydd colled posib staff a'r pellter estynedig rhwng cyfleusterau'r ysgol a Tan Lan fel ardal gyda phoblogaeth uchel. Hefyd ystyrir y byddai dewis 1 yn cael effaith negyddol ar y cyfleusterau cymunedol fyddai ar gael.

Byddai natur effeithiau dewis 1 yn ddibynnol ar y cyfleusterau cymunedol fyddai ar gael yn dilyn colli safle Ysgol Babanod Penmaenrhos ac a fyddai teuluoedd plant sy'n mynychu Ysgol Babanod Penmaenrhos yn debygol o anfon eu plant i safle Ysgol Tan y Marian. O'r 16 o blant sy'n mynychu Ysgol Babanod Penmaenrhos eleni a fydd yn gadael yn yr haf bydd 13 yn mynychu Ysgol Tan y Marian. Gallai hyn ddangos cefnogaeth dda ar gyfer Ysgol Tan y Marian fodd bynnag mae tueddiadau dros y bum mlynedd diwethaf yn dangos fod presenoldeb wedi gostwng.

Mae'r tri disgybl sydd ddim yn mynd i'r ysgol iau leol yn cynrychioli 19% o ddisgyblion Ysgol Babanod Penmaenrhos. Er bod y rhifau hyn yn fychan, mae'r gyfradd hon yn gyson dros y pum mlynedd diwethaf.

Byddai cael 'Un ysgol' ar un safle yn cael effaith negyddol ar y ddarpariaeth o gyfleusterau cymunedol trwy golli cyfleusterau ar safle Ysgol Babanod Penmaenrhos. Byddai hyn yn golygu galw uwch ar Ganolfan Cymunedol Peulwys a'r Ardal gan olygu effaith ar y gymuned.

O ran cyfleusterau cymunedol nid yw'n glir os byddai cyfleuster gwasanaeth a ddarperir yn Ysgol Babanod Penmaenrhos yn cael ei gynnwys o fewn y ddarpariaeth sy'n bodoli yn y dalgylch. Mae Canolfan Gymunedol Peulwys a'r Ardal yn cael ei rhedeg yn annibynnol a tra'n bod yn cael ei defnyddio gan yr ysgol yn ystod amser ysgol nid yw ar gyfer defnydd yr ysgol yn unig. Ar y dechrau ymddengys y gellir cynnwys bob grŵp gan fod amseroedd defnyddio yn ymddangos i amrywio rhwng wythnosol a dyddiol yn ddigonol i ganiatáu i bawb gael eu gwasanaethu.

Gall ail leoli ysgol o fewn yr ardal gael effaith ar atyniad yr ardal bresennol i brynwyr tai posib, yn arbennig y rhai sydd â phlant neu'n bwriadu cael plant. Mae hyn yn wir i unrhyw wasanaeth, megis meddygfa, llyfrgell neu ganolfan hamdden. I'r gwrthwyneb, gellir ystyried ail leoli ysgol i ffwrdd o ardal i fod yn fuddiol gan breswylwyr lleol a gwneud yr ardal yn fwy apelgar i brynwyr tai sy'n edrych am gymdogaeth dawelach. O ystyried agosrwydd yr ysgolion presennol ac y bydd addysg ar gyfer y ddau oedran yn cael ei gadw yn un o'r safleoedd, ni ystyrir effaith colli un safle ysgol yn arwyddocaol yma.

## Atodiad

### Methodoleg Asesiad Effaith Cymunedol

Gofynnwyd i'r Gwasanaeth Datblygu Cymunedol ystyried effaith y dewisiadau canlynol o Gynllun Gweithredu '*Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy*' ar ardal Penmaenrhos:

*Dewis 1* Un ysgol ar un safle (Tan y Marian)

*Dewis 2 (a ddymunir gan yr ardal)* – Cadw'r ysgolion sy'n bodoli

*Dewis 3* Un ysgol ar y ddau safle sy'n bodoli

Y diffiniad o 'Un Ysgol' roddir yn Adroddiad Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy:

*Bydd hyn yn golygu cyfuno ysgol iau a'i hysgol fabanod sy'n bwydo yn un ysgol gynradd, gydag un pennaeth ac un corff llywodraethol.*

Bu i bob ysgol yn yr ardal gyflwyno gwybodaeth am eu swyddogaeth yn yr ardal (*gweler 3.1 Mwy o wybodaeth am yr ysgolion*). Gan ddefnyddio'r manylion hyn a gwybodaeth arall, bu i'r Gwasanaeth Datblygu Cymunedol archwilio'r effeithiau posib y gall y dewisiadau arfaethedig eu cyflwyno.

Mae gwybodaeth a ddadansoddiwyd yn y broses hon yn cynrychioli ciplun o'r sefyllfa bresennol.

Canfuwyd pum mesur allweddol gyda'r pwysiad a gytunwyd gan Fwrdd Rhaglen Moderneiddio Ysgolion Cynradd a'u defnyddio i sicrhau fod materion penodol yn cael eu cynrychioli yn briodol:

- Plant sy'n byw yn y dalgylch sy'n mynychu eu hysgol leol (Pwysiad: 30)
- Gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgol ar gyfer y gymuned gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol (Pwysiad: 25)
- Cyfleusterau cymunedol a ddefnyddir yn rheolaidd gan yr ysgol (Pwysiad: 10)
- Cyfleusterau cymunedol a ddarperir gan a gweithgaredd a gynhelir ar dir yr ysgol (Pwysiad: 25)
- Effaith ar fusnesau lleol a chyflogaeth (Pwysiad: 10)

Trefnwyd gweithdy gydag aelodau etholedig lleol i ystyried yr asesiad.

Yn erbyn pob Dewis (e.e. '*Dewis 3 Un Ysgol ar y ddau safle sy'n bodoli*):

- Aseswyd y pum mesur (e.e. '*effaith ar fusnesau lleol a chyflogaeth*') i ganfod unrhyw effeithiau negyddol neu gadarnhaol ar yr ardal.
- Yna rhoddwyd sgôr yn amrywio o -3 i +3 yn seiliedig ar gydbwysedd y dystiolaeth oedd ar gael.
- Yna lluoswyd pob sgôr unigol gyda'r pwysiad a gytunwyd ar gyfer y mesur.

Sgor mesur	Asesiad mesur	Cyfanswm sgor mesur
-3	Dirywiad mawr	-201 i -300
-2	Dirywiad cymedrol	-101 i -200
-1	Rhywfaint o ddirywiad	-1 i -100
0	Dim newid ar y cyfan	0
1	Rhywfaint o welliant	1 i 100
2	Gwelliant cymedrol	101 i 200
3	Gwelliant mawr	201 i 300

Mae Adran 4.1 yn cyflwyno canlyniad yr asesiad effaith ar gyfer pob Dewis.

Troswyd cyfanswm y sgôr ar gyfer pob dewis i'r Gwerthusiad Dewis, gyda sgôr o 1-5, gydag 1 y sgôr isaf a 5 yr uchaf:

- 5 – Cytuno'n Gryf / Gwelliant
- 4 – Cytuno / Rhywfaint o welliant
- 3 – Ddim yn cytuno nac anghytuno / Dim newid
- 2 – Anghytuno / Rhywfaint yn waeth
- 1 – Anghytuno'n Gryf / Gwaeth

*Asesiad effaith mesuriadau a sgorio dewisiadau*

Sgor mesur	Asesiad mesur	Cyfanswm sgor mesur	Sgor dewis	Asesiad dewis
-3	Dirywiad mawr	-201 i -300	1	Gwaeth
-2	Dirywiad cymedrol	-101 i -200		
-1	Rhywfaint o ddirywiad	-1 i -100	2	Rhywfaint yn waeth
0	Dim newid ar y cyfan	0	3	Dim newid
1	Rhywfaint o welliant	1 i 100	4	Rhywfaint o welliant
2	Gwelliant cymedrol	101 i 200	5	Gwelliant
3	Gwelliant mawr	201 i 300		

Rhoddir trwydded ddirymiadwy nad yw'n gyfyngedig, heb freindal, i chi weld y Data Trwyddedig ar gyfer defnydd anfasnachol yn unig, o'r cyfnod y bydd ar gael gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy;

Ni chewch gopïo, is-drwyddedu, dosbarthu, gwerthu neu fel arall drefnu bod y Data Trwyddedig ar gael mewn unrhyw ffurf i drydydd partion; a

Neilltuir hawliau trydydd parti i orfodi telerau'r drwydded hon i'r Arolwg Ordians.